

# Neuaddau Preswyl

## Ymddygiad Disgwylidig

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob myfyriwr ymddwyn yn gyfrifol, gan ddangos ystyriaeth briodol tuag at bobl eraill, tuag at eiddo a thuag at y Brifysgol.

Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr, Rheoliadau Cyffredinol Myfyrwyr ac Amodau Neuaddau Preswyl yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gennych.

Rydym yn defnyddio'r rhain i asesu difrifoldeb unrhyw weithred o gamymddwyn, ond bydd pob honiad yn cael ei ystyried fesul achos, gan ystyried y digwyddiad a'r amgylchiadau y cafodd eu cyflawni ynddynt.

Gellir cosbi'r rhai a geir yn euog o gamymddwyn, a all gynnwys dirwy. Gall cosbau eraill gynnwys rhybudd ysgrifenedig, gofyniad i ymddiheuro (yn ysgrifenedig neu'n bersonol), atal breintiau dros dro (megis Wi-Fi, Aelodaeth Gym), trosglwyddo i neuadd wahanol neu atal dirwy am hyd at 90 diwrnod.

Pan roddir dirwy, mae'r canlynol yn dangos y gyfradd arferol y gall aelodau awdurdodedig y Brifysgol ei chyflwyno. Mae'r cyfraddau hyn ar gyfer arweiniad yn unig, a gall dirwyon amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol.

Pan geir trosedd am yr eildro, gall staff awdurdodedig ystyried cosb neu ddirwy fwy difrifol a allai olygu dilyn y Polisi Addasrwydd i Breswyllo (sydd i'w weld yma <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essentials20-21.php.en>) Gallai hyn arwain at derfynu eich cytundeb Neuaddau.

Efallai y bydd angen i'r Prif Wardeiniaid atgyfeirio rhai digwyddiadau mawr i Fwrdd Uwch i'w hystyried.

| Tramgwydd  | Torri amodau preswyllo | Dirwy                        |
|--|------------------------|------------------------------|
| Gorchuddio neu ymyrryd â synhwyrdd mwg**   | 2.8, 2.13, 2.14, 2.15  | £100                         |
| Seinio larwm tân yn faleisus   | 2.13, 2.14, 2.15, 2.16 | £100                         |
| Defnydd amhriodol o ddiffoddwr tân/ blancedi tân   | 2.13, 2.14, 2.15       | £60                          |
| Ysmygu mewn Neuaddau Preswyl   | 2.13, 2.14, 2.15, 2.16 | £100                         |
| Meddu ar sylweddau anghyfreithlon, neu eu defnyddio (dosbarth B, tabledi anghyfreithlon/ sylweddau gwaharddedig)**   | 2.13, 2.14, 2.15, 2.16 | £100 a/neu adrodd i'r Heddlu |
| Delio cyffuriau neu feddu ar gyffuriau anghyfreithlon dosbarth A**   | 2.13 2.14 2.15 2.16    | Adrodd i'r Heddlu            |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (gan gynnwys ymddygiad afreolus, sŵn diangen, ac ymddygiad sy'n achosi niwsans, anghyfleustra neu annifyrrwch i breswylwyr eraill) | 2.13, 2.14, 2.15, 2.16 | £100                         |

|  |                                    |   |
|--|------------------------------------|---|
| Difrod i eiddo'r brifysgol   | 2.8, 2.9 2.10,<br>2.11, 2.13, 2.14 | £50 + costau a<br>cholli incwm              |
| Meddu ar eitemau peryglus, ymosodol (e.e. gynnau BB, cyllyll<br>clec, drylliau ffug ac ati) ** | 2.13, 2.14, 2.15                   | Cyfeirio at<br>Fwrdd Uwch<br>a/neu'r Heddlu |
| Ymosodiad corfforol neu ymddygiad treisgar**   |                                    | Cyfeirio at<br>Fwrdd Uwch                   |

D.S. Ymdrinnir â phob trosedd arall ar sail ddiamod. Gellir gosod dirwyon hefyd am droseddau heblaw'r rhai a restrir uchod.

\*\* Gallai troseddau o'r difrifoldeb hwn arwain at achos troseddol